Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Donna Jones**

**Caernarfon**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 8 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 02 Hydref 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mynegi mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn ac maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r gwarchodwr plant. Maent yn cael dewis rhesymol o gyfleoedd priodol dan do a gallant hefyd ymlacio a chael cyfnod tawel. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad rhesymol o gyflawniad a hunan-barch. Maent yn fodlon dangos neu siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud. Maent yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn addas.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gofal mewn ffordd gynnes a chyfeillgar. Fodd bynnag, nid yw'n rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau yn llawn ar waith yn effeithiol er mwyn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw i fodloni'r gofynion. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu gweithgareddau chwarae a dysgu priodol ar gyfer y plant.

Mae'r amgylchedd dan do yn lân ac yn groesawgar. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod teganau priodol ac adnoddau addas ar gael ar gyfer ystod oedran y plant y gofelir amdanynt. Mae angen gwella amgylchedd yr ardal chwarae awyr agored.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli rhai elfennau o'i lleoliad yn briodol. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau pellach er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau er mwyn gwella canlyniadau'r plant.

| Llesiant | Digonol |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac yn cael rhai cyfleoedd i ddilyn eu diddordebau ac i ddatblygu eu chwarae a'u dysgu.

Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn briodol ac yn mwynhau siarad am yr hyn yr hoffent chwarae ag ef â'u dangos. Er enghraifft, wrth iddynt gyrraedd o'r ysgol, dangosodd y plant y clustiau eliffant roeddent wedi eu gwneud, a gwnaethant ddangos sut y byddai eliffant yn symud. Siaradodd y plant am yr eitemau yn eu bocs bwyd, a gwnaethant ofyn yn gwrtais i'r gwarchodwr plant wneud eu pasta. Ymatebodd y gwarchodwr plant i gais y plentyn yn syth, a gwnaeth hynny'r plentyn yn hapus.

Mae'r plant yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch yn gyfeillgar gan y gwarchodwr plant. Maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol ac yn dangos sut maent yn paratoi eu hunain i gasglu eu ffrindiau o'r ysgol. Maent yn mynd at y gwarchodwr plant yn hyderus ac yn gallu gofyn am faldod pan fydd ei angen arnynt.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r gwarchodwr plant. Maent yn mwynhau achlysur cymdeithasol amser prydau ac yn ymarfer bod yn gwrtais. Mae'r plant yn cydweithredu'n dda ac yn dysgu sut i rannu a chymryd eu tro. Er enghraifft, roedd y ffrindiau'n cymryd eu tro wrth drefnu'r darnau pos, sef gyda'r darnau rhifau sbwng mawr. Gwnaethant rannu'r offer bwyta ar gyfer y gweithgaredd pobi, a chymryd eu tro i gymysgu'r cynhwysion gyda llwy bren.

Mae'r plant yn ymroi yn eu profiadau chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau datblygu eu dychymyg. Er enghraifft, dangosodd blentyn sut y defnyddiodd y tegan bibell gwactod gan smalio ei fod yn wialen bysgota, a'r mat fel pwll ffug i esgus ei fod yn pysgota ynddo. Gwnaeth hyn sbarduno sgwrs fywiog am ddal octopws a siarc. Mae'r plant yn mwynhau cael dewis eu hoff jig-so, ac yn canolbwyntio'n dda wrth iddynt eu cwblhau. Roeddent yn mwynhau dangos sut y byddant yn defnyddio olwyn llywio wedi'i phweru gan fatri, gan gyffroi wrth wrando ar wahanol synau'r botymau.

Mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, ond caiff rhai cyfleoedd eu colli ar amseroedd bwyd er mwyn galluogi'r plant i wneud eu penderfyniadau eu hunain ac i weini bwyd i'w hunain. Mae'r plant yn gwneud y rhan fwyaf o bethau drostynt eu hunain yn briodol gydag anogaeth gadarnhaol gan y gwarchodwr plant.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda. Mae hi'n cefnogi'r plant i siarad a mynegi eu hunain yn hyderus ac yn ymateb mewn ffordd gyson ac amserol i'w ceisiadau. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gofal mewn ffordd gynnes a chyfeillgar.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth addas o'r gweithdrefnau diogelu. Mae hi'n cofnodi amseroedd cyrraedd dyddiol y plant yn briodol. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n derbyn gofal. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod cywir o ddamweiniau a digwyddiadau ac yn sicrhau bod y rhieni a'r gofalwyr yn cydnabod y rhain fel tystiolaeth eu bod wedi cael eu hysbysu. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân er mwyn helpu'r plant i wybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant yn rhoi ei pholisïau a'i gweithdrefnau yn llawn ar waith yn effeithiol er mwyn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw i fodloni'r gofynion. Er enghraifft, mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio weips a hylif diheintio i olchi dwylo'r plant yn lle annog y plant i olchi eu dwylo â sebon a dŵr i leihau'r risg o ledaenu germau a feirysau. Nid yw'r gweithdrefnau newid cewynnau yn cydymffurfio'n llawn â'r gweithdrefnau rheoli heintiau cyfredol. Er enghraifft, ni wnaeth y gwarchodwr plant dynnu ei menyg untro i ffwrdd ar ôl newid cewyn y plentyn a chyn gwisgo'r plentyn.  Nid yw'r gwarchodwr plant yn sicrhau preifatrwydd i'r plant pan fydd yn rhoi gofal personol iddynt. Nid oes gan y gwarchodwr plant bolisi newid cewynnau ar waith sy'n cynnwys y materion hylendid yn ogystal ag arferion diogelu da. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y plant, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r gwarchodwr plant weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Nid yw polisi bwyd a maeth y lleoliad yn adlewyrchu'r ddarpariaeth sy'n cael ei roi, ac nid yw ei harferion yn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau bwyd a maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant. Er enghraifft, mae'r plant yn yfed diodydd siwgr ond nid ydynt yn cael eu hannog i yfed dŵr neu laeth. Ni wnaethom weld y plant yn chwarae yn yr awyr agored, ac eglurodd y gwarchodwr plant nad yw'r ardal chwarae awyr agored yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd hi'n gallu dangos ffotograffau o'r plant yn chwarae ar y traeth ac yn ymweld â safleoedd lleol.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig amgylchedd cynnes a chroesawgar ac yn sicrhau bod y plant yn cael sicrwydd a chysur pan fydd eu hangen. Mae hyn yn creu awyrgylch cyfforddus a hapus.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig profiadau chwarae a dysgu addas dan do. Darparodd gymorth ysgafn i'r plant a chyfarwyddiadau clir iddynt yn ystod gweithgaredd pobi, a phan roeddent yn cwblhau posau. Cadarnhaodd y gwarchodwr plant nad yw hi'n cadw cofnod o ddatblygiad y plant mwyach wrth iddynt baratoi ar gyfer y camau dysgu nesaf. Eglurodd y gwarchodwr plant fod y rhieni a'r gofalwyr yn cael diweddariadau dyddiol ar lafar neu dros neges destun am gynnydd eu plentyn.

## Yr Amgylchedd Digonol

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do yn lân ac yn groesawgar. Mae angen gwella amgylchedd yr ardal chwarae awyr agored.

Mae gan y gwarchodwr plant system addas ar gyfer rheoli mynediad i'r safle ond nid yw'n cadw cofnod o'r ymwelwyr. Ar ôl trafodaeth, gwnaethom gofnodi ein presenoldeb yn nyddiadur y gwarchodwr plant, a dywedodd y byddai'n mynd i'r afael â'r mater hwn yn y dyfodol. Mae'r gwarchodwr plant wedi cwblhau asesiadau risg cyffredinol i nodi'r risgiau posibl i'r plant a'r mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn adlewyrchu'r ddarpariaeth gyfredol yn llawn o safbwynt y trefniadau i ddefnyddio'r ardal chwarae awyr agored. Mae'r gwarchodwr plant yn goruchwylio'r plant yn briodol. Wrth gasglu'r plant o'r ysgol, sicrhaodd y gwarchodwr plant fod y plant yn ymwybodol o'r risgiau posibl, a'u bod yn rhoi rheolau diogelwch ffordd ar waith. Mae gan y gwarchodwr plant becyn cymorth cyntaf, ond mae rhai o'r eitemau wedi dod i ben.

Mae cynllun yr ystafell chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant. Mae amrywiaeth o deganau ac adnoddau o ansawdd da ar gael, ond nid yw pob un ohonynt yn hawdd i'r plant gael gafael arnynt. Er enghraifft, mae'r bocs teganau yn orlawn, sy'n ei gwneud hi'n anodd i'r plant wneud dewisiadau a chael y cyfle i chwarae â theganau newydd. Mae rhai adnoddau naturiol a diddorol ar gael i ddatblygu chwilfrydedd y plant, ond mae'r rhain wedi eu storio mewn bocsys â gorchudd arnynt, gan ei gwneud hi'n anodd i'r plant weld beth sydd y tu mewn iddynt. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod digon o adnoddau i feithrin sgiliau iaith, rhifedd a hunanymwybyddiaeth y plant yn briodol.

Nid yw'r polisïau awyr agored a diogelu'r gwarchodwr plant yn adlewyrchu'r ddarpariaeth gyfredol yn gywir, sy'n nodi bod yr ardal awyr agored ar gael i'w defnyddio. Fodd bynnag, yn ystod ein hymweliad, cadarnhaodd y gwarchodwr plant nad oedd yr ardal chwarae awyr agored yn cael ei defnyddio. Yn dilyn ein hymweliad, cadarnhaodd y gwarchodwr plant y byddai'n newid yr holl bolisïau i adlewyrchu'r hyn sy'n cael ei gynnig gan y lleoliad ar hyn o bryd. Mae angen gwneud gwelliannau sylweddol i'r ardal awyr agored i'w gwneud yn ddiogel i'r plant gael chwarae ynddi. Dywedodd y gwarchodwr plant y bydd yr ardd yn cael ei gwneud yn ddiogel er mwyn i'r plant gael chwarae ynddi yn yr haf. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli rhai elfennau o'i lleoliad yn briodol. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau pellach er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau er mwyn gwella canlyniadau'r plant.

Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben ysgrifenedig, ond nid yw'n rhoi'r holl wybodaeth ofynnol sydd ei hangen i adlewyrchu'r hyn mae'r gwasanaeth yn wir yn ei gynnig. Er enghraifft, nid yw'n cynnwys amseroedd agor y lleoliad, mae angen mwy o fanylion am y gweithdrefnau a ddefnyddir mewn argyfwng, ac am dderbyniadau, mae angen diweddaru'r cyfeirlyfr am ystod anghenion plant perthnasol, a chynnwys manylion am y trefniadau i adolygu'r datganiad o ddiben. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Yn dilyn ein hymweliad, mae'r gwarchodwr plant wedi cyflwyno datganiad o ddiben diwygiedig gyda rhai gwelliannau wedi'u gwneud. Mae gan y gwarchodwr plant bolisi diogelwch ar waith, ond nid yw hwn yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru sy'n unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol yng Nghymru. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r gwarchodwr plant wedi cadarnhau ei bod yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, ac yn rhedeg ei lleoliad drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r holl ddogfennaeth a ddarperir i'r rhieni a'r gofalwyr yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd.

Mae'r gwarchodwr plant wedi creu adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal dyddiedig Ionawr 2023. Nid yw'r gwarchodwr plant wedi ystyried nac wedi gwerthuso'n llawn ansawdd y gofal yn effeithiol, ac nid yw'r adroddiad yn adlewyrchu'r ddarpariaeth gyfredol yn gywir. Nid yw'r gwarchodwr plant wedi cynnwys sylwadau gan y rhieni, y gofalwyr, na'r plant i dynnu sylw at yr hyn sy'n mynd yn dda, pa welliannau y bydd yn eu rhoi ar waith a sut y bwriedir gwneud hyn. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Yn ystod ein hymweliad, nid oedd y gwarchodwr plant wedi sicrhau bod ganddi hi ac aelodau o'r aelwyd sydd dros 16 oed, dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) cyfredol i sicrhau fod y plant yn ddiogel. Yn dilyn ein hymweliad, mae'r gwarchodwr plant wedi cyflwyno ei thystysgrif DBS gyfredol, ac wedi dangos tystiolaeth fod y broses o wneud ceisiadau i adnewyddu tystysgrifau DBS aelodau o'r aelwyd ar waith. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r gwarchodwr plant wedi casglu'r holl wybodaeth ofynnol yng nghofnodion personol y plant.

Mae'r gwarchodwr plant wedi cyflwyno rhai ffotograffau i ddangos y plant yn eu cymuned, yn ymweld â safleoedd lleol i ddysgu am eu hardal leol ac i wella eu sgiliau cymdeithasol. Gwnaethom dderbyn ymatebion cadarnhaol gan y rhieni a'r gofalwyr yn ein harolygon am y gofal sy'n cael ei gynnig i'w plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 25 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau ei bod yn dilyn y gweithdrefnau rheoli heintiau cyfredol ar gyfer newid cewynnau, a'r gweithdrefnau golchi dwylo. Mae angen i'r gwarchodwr plant sicrhau preifatrwydd i'r plant pan fydd yn rhoi gofal personol iddynt. Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod polisi newid cewynnau ar waith sy'n ystyried materion hylendid yn ogystal ag arferion diogelu da. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Rhaid i'r gwarchodwr plant gynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn y datganiad o ddiben er mwyn sicrhau bod gan y rhieni a'r gofalwyr wybodaeth ddigonol i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch y gwasanaeth, ac anfon copi at Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). | Newydd |
| 16 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y systemau a'r prosesau a ddefnyddir ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd pob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir yn barhaus yn effeithiol. Mae angen i'r gwarchodwr plant sicrhau ei bod yn casglu barn a safbwyntiau'r plant a'u rhieni / gofalwyr yn rheolaidd am ba welliannau y gellid eu gwneud, ac yn eu rhoi ar waith, gan gynnwys y safbwyntiau hyn yn yr adroddiad sy'n adolygu ansawdd y gofal. Mae angen i'r gwarchodwr plant sicrhau bod hyn yn cael ei ymgorffori yn ymarferol er mwyn mesur llwyddiant y gwasanaeth fel rhan o'r prosesau hyn. | Newydd |
| 22 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y polisi diogelu yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru. Wrth greu'r polisi, mae'n rhaid i'r gwarchodwr plant fod yn gyfarwydd â chanllaw statudol Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | Newydd |
| 20 | Rhaid i’r gwarchodwr plant sicrhau nad yw'r plant yn wynebu risg o niwed posibl, mae’n rhaid i’r gwarchodwr plant sicrhau bod pob aelod o'r aelwyd sydd dros 16 oed yn meddu ar dystysgrif DBS gyfredol i wirio eu haddasrwydd. | Newydd |
| 37 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod pob rhan o'r ardal chwarae awyr agored yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da er mwyn darparu cyfleoedd priodol i'r plant ddatblygu eu sgiliau chwarae a dysgu a'u sgiliau corfforol yn yr awyr agored. | Newydd |
| 6 | Rhaid i'r gwarchodwr plant wneud trefniadau i gyflwyno ei thystysgrif gwasanaeth datgelu a | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | gwahardd (DBS) gyfredol i AGC. | |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Sicrhau bod y polisi bwyd a maeth yn adlewyrchu'n union yr hyn sy'n cael ei gynnig yn y lleoliad yn llawn a'i fod yn unol â chanllawiau bwyd a maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant. Sicrhau bod opsiynau hydradu iach yn cael eu cynnig i'r plant drwy gydol y dydd. |
| Safon 24 - Diogelwch | Sicrhau bod yr asesiadau risg yn adlewyrchu'r safle, y gweithgareddau a'r gwibdeithiau y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt yn llawn. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 23/04/2024